

## Telerau Ac Amodau

Mae'r telerau a'r amodau hyn yn contract rhyngoch Chi a HAHAV. Trwy ymweld â neu ddefnyddio Ein Gwefan, rydych CHI'n cytuno i fod yn rhwymedig iddynt.

Maent yn seiliedig ar set a ysgrifennwyd gan Net Lawman ac wedi'u rhyddhau dan drwydded. Maent yn amddiffyn eich hawliau Chi yn ogystal â'n hawliau ni.

Ni yw HAHAV (Aberystwyth and District Hospice at Home Volunteers), rhif elusen gofrestredig 1160645, rhif y cwmni 9261439. Ein cyfeiriad yw HAHAV, Plas Antaron, Penparcau Aberystwyth, SY23 1SF, Cymru (y cyfeirir ato fel HAHAV yn y ddogfen hon).

"Chi" – unrhyw un sy'n defnyddio Ein Gwefan.

Darllenwch y cytundeb hwn yn ofalus a'i gadw. Os nad ydych Chi'n cytuno ag ef, dylech Chi adael Ein Gwefan ar unwaith.

## Rhain yw'r telerau a gytunwyd

### 1. Diffiniadau

"Cynnwys"	yn golygu'r cynnwys testunol, gweledol neu glywedol a welwch fel rhan o'ch profiad ar Ein Gwefan. Gall gynnwys, ymhlith pethau eraill, testun, delweddau, seiniau, fideos ac animeiddiadau. Mae'n cynnwys deunydd sydd wedi'i Bostio gennych Chi.
"Eiddo deallusol"	yn golygu eiddo deallusol a berchnogir gan HAHAV, o bob math, p'un ai yw'n gofrestredig ai peidio neu'n gofrestradwy mewn unrhyw wlad, gan gynnwys eiddo deallusol o bob math sy'n dod i fodolaeth ar ôl heddiw, ac yn cynnwys, ymhlith eraill, patentau, nodau masnachu, nodau anghofrestredig, dyluniadau, hawlfreintiau, meddalwedd, enwau parthau, darganfyddiadau, creadigaethau a dyfeisiadau, ynghyd â'r holl hawliau sy'n tarddu o'r hawliau hynny.
"Ein Gwefan"	yn golygu unrhyw wefan neu wasanaeth a ddyluniwyd ar gyfer mynediad electronig trwy ffôn symudol neu ddyfeisiadau sefydlog a berchnogir neu a weithredir gan HAHAV. Mae hefyd yn cynnwys pob tudalen ar y we a reolir gan HAHAV.
"Post"	yn golygu gosod ar neu i mewn i Ein Gwefan, unrhyw

Gynnwys neu ddeunydd o unrhyw fath ym mha ffordd bynnag.

“Gwasanaethau” yn golygu pob gwasanaeth sydd ar gael oddi ar Ein Gwefan.

## 2. Dehongliad

Yn y cytundeb hwn, oni bai fod y cyd-destun yn dynodi'n wahanol:

- 2.1. mae cyfeirio at berson yn cynnwys unigolyn dynol, endid corfforaethol ac unrhyw sefydliad a lywodraethir neu a reolir fel uned.
- 2.2. yng nghyd-destun caniatâd, mae “ni ellir” sy'n ymwneud â gweithred gennyh Chi yn golygu “rhaid peidio”
- 2.3. mae unrhyw gytundeb gan y naill barti neu'r llall i beidio â neu hepgor gwneud rhywbeth yn cynnwys rhwymedigaeth i beidio â chaniatáu i unrhyw berson arall wneud neu hepgor gwneud yr union beth hwnnw.
- 2.4. Mae'r cytundeb hwn wedi'i wneud yn yr iaith Saesneg yn unig. Os oes unrhyw wahaniaeth ystyr rhwng fersiwn iaith Saesneg y cytundeb hwn ag unrhyw fersiwn neu gyfieithiad o'r cytundeb hwn mewn unrhyw iaith arall, y fersiwn iaith Saesneg fydd yn goresgyn.

## 3. Sail y Contract

- 3.1. Nid ydym yn darparu'r Gwasanaethau ym mhob gwlad. Gallwn wrthod darparu'r Gwasanaethau os ydych Chi'n byw mewn gwlad nad ydym yn ei gwasanaethu.
- 3.2. Wrth gytuno i'r contract hwn, nid ydych wedi dibynnu ar unrhyw ddisgrifiad na gwybodaeth o unrhyw ffynhonnell ac eithrio'r diffiniad a'r esboniad o'r Gwasanaethau a roddir ar Ein Gwefan.
- 3.3. Yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau hyn, byddwn yn rhoi i Chi rai neu'r cyfan o'r Gwasanaethau a ddisgrifir ar Ein Gwefan yn unol ag unrhyw gytundeb penodol rhyngoch Chi a HAHAV.
- 3.4. Cyhyd â bod HAHAV yn caniatáu'r defnydd o'i Eiddo Deallusol, mae'n rhoi trwydded i Chi, yn gyfyngedig i'r telerau a amlinellir yn y cytundeb hwn.

- 3.5. Gall HAHAV newid y cytundeb hwn a'r / neu'r ffordd y mae HAHAV yn darparu'r Gwasanaethau, ar unrhyw adeg. Os bydd HAHAV yn gwneud hyn:
- 3.5.1 bydd y newid yn dod i rym pan fydd HAHAV yn ei Bostio ar Ein Gwefan.
- 3.5.2 Rydych yn cytuno i fod yn rhwymedig i unrhyw newidiadau. . Os nad ydych yn cytuno i fod yn rhwymedig iddynt, ni ddylech Chi ddefnyddio Ein Gwefan na'r Gwasanaethau. .

## **4. Eich cyfrif a'ch gwybodaeth bersonol**

- 4.1. Pan fyddwch Chi'n ymweld â'n Gwefan, rydych Chi'n derbyn cyfrifoldeb am unrhyw weithred a wneir gan unrhyw berson sy'n defnyddio eich enw, cyfrif neu gyfrinair. Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau y cedwir y cyfrinair yn gyfrinachol a diogel a dylech hysbysu HAHAV ar unwaith os oes gennych Chi unrhyw reswm i gredu bod eich cyfrinair wedi dod yn hysbys i rywun arall, neu os yw'r cyfrinair yn cael neu'n debygol o gael ei ddefnyddio mewn modd sydd heb ei awdurdodi.
- 4.2. Rydych Chi'n cytuno eich bod wedi rhoi gwybodaeth gywir, gyfredol a chyflawn amdanoch eich hun. Nid ydym ni'n gyfrifol am unrhyw gamgymeriad a wnaed am fod gwybodaeth o'r fath yn anghywir.
- 4.3. Rydych Chi'n cytuno i hysbysu HAHAV o unrhyw newidiadau yn eich manylion ar unwaith pan ddigwydd hynny. Os na wnewch Chi hynny, gall HAHAV derfynu eich cyfrif.

## **5. Sut mae HAHAV yn trin eich Cynnwys**

- 5.1. Mae ein polisi preifatrwydd yn gadarn a manwl gywir. Mae'n cydymffurfio'n llwyr â Deddf Diogelu Data 2018 [y gellir ei gweld wrth ddilyn y ddolen hon](#).
- 5.2. Os ydych Chi'n Postio Cynnwys i unrhyw fan cyhoeddus ar Ein Gwefan, bydd ar gael i'w weld yn y parth cyhoeddus. Nid oes gennym reolaeth ar bwy sy'n ei weld na'r hyn a wna eraill ag ef.
- 5.3. Hyd yn oed os yw mynediad i'ch data y tu ôl i gofrestrriad defnyddiwr mae'n aros i bob pwrpas yn y parth cyhoeddus oherwydd nid oes ond rhaid i rywun gofrestru a mewngofnodi i gael mynediad iddo. Felly, dylech osgoi Postio gwybodaeth gyfrinachol ddiangen.

- 5.4. Nid yw Postio Cynnwys yn newid eich perchnogaeth o'r hawlfraint ynddo. Nid oes gan HAHAV hawl drosto ac ni fydd yn amddiffyn eich hawliau drosoch Chi
- 5.5. Rydych yn deall mai Chi sy'n bersonol gyfrifol os bydd eich hawliau eiddo deallusol wedi'u torri, am ddifenwad neu unrhyw dorcyfraith, a allai ddigwydd o ganlyniad i Bostio unrhyw Gynnwys gennyh Chi.
- 5.6. Rydych Chi'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb am benderfynu rhoi unrhyw Gynnwys yn y parth cyhoeddus nad sy'n gyfrinachol.
- 5.7. Cofiwch roi gwybod i HAHAV am unrhyw danseilio diogelwch neu ddefnydd anawdurdodedig o'ch cyfrif.

## **6. Cyfyngiadau ar beth Allwch Chi ei Bostio ar Ein Gwefan**

Mae HAHAV yn eich gwahodd Chi i Bostio Cynnwys ar Ein Gwefan mewn sawl ffordd ac at wahanol ddibenion. Mae'n ofynnol i HAHAV reoleiddio eich defnydd o'n Gwefan er mwyn amddiffyn ein busnes a'n staff, i amddiffyn eraill sy'n defnyddio Ein Gwefan ac i gydymffurfio â'r Gyfraith. Mae'r gosodiadau hyn yn berthnasol i holl ddefnyddwyr ein Gwefan.

Nid yw HAHAV yn cymedroli na gwirio pob eitem Bostiedig, ond mae'n amddiffyn ei fusnes yn gadarn. Os yw HAHAV yn credu bod y Cynnwys Postiedig yn torri'r gyfraith, bydd yn cydweithredu'n llwyr ag awdurdodau gorfodi'r gyfraith.

Rydych yn cytuno na fyddwch Chi'n defnyddio nac yn caniatáu i unrhyw un arall ddefnyddio Ein Gwefan ar gyfer Postio, uwchlwytho Cynnwys neu weithredu mewn modd sydd neu allai fod:

- 6.1. yn anghyfreithlon, neu'n tueddu i annog person arall i gyflawni trosedd;
- 6.2. wedi'i gynnwys mewn ffeiliau clywedol, cerddoriaeth neu fideo masnachol;
- 6.3. yn aflan, tramgwyddus, bygythiol, treisgar, maleisus, gwahaniaethol neu ddifriol;
- 6.4. yn benodol rywiol neu bornograffig
- 6.5. yn debygol o dwyllo unrhyw berson neu'n cael ei ddefnyddio i bersonadu unrhyw berson neu i gamliwio eich hunaniaeth, oedran neu ymlyniad wrth unrhyw berson;

- 6.6. yn rhoi'r argraff ei fod yn tarddu o HAHAV neu eich bod Chi yn gysylltiedig â HAHAV neu fod HAHAV wedi eich cefnogi Chi neu'ch busnes;
- 6.7. yn postio Cynnwys ar ran rhyw berson arall, neu bersonadu person arall;
- 6.8. yn ceisio neu'n casglu cyfrineiriau neu wybodaeth bersonol arall oddi wrth ddefnyddiwr arall heb eu caniatâd, neu Bostio unrhyw wybodaeth bersonol ddiangen amdanoch eich hun;
- 6.9. yn cael ei ddefnyddio i werthu unrhyw nwyddau neu wasanaethau neu ar gyfer unrhyw ddefnydd masnachol arall nad sydd wedi'i gymeradwyo'n benodol gan HAHAV, ar gyfer eich hunan neu unrhyw berson arall. Enghreifftiau yw: anfon negeseuon preifat gyda phwrpas masnachol, neu gasglu gwybodaeth gyda'r bwriad o'i hanfon at drydydd parti ar gyfer eu defnydd masnachol;
- 6.10. yn hwyluso'r ddarpariaeth o gopïau heb eu hawdurdodi o waith hawlfraint person arall;
- 6.11. yn cyplysu ag unrhyw ddeunydd a nodir yn y paragraff hwn;
- 6.12. yn anfon negeseuon sy'n amhriodol i'r oedran neu Gynnwys i unrhyw un dan oed [18].

## **7. Eich Postiad: cynnwys cyfyngedig**

Yng nghyswllt y cyfyngiadau a amlinellir isod, gall HAHAV wrthod, golygu neu waredu Post nad sy'n cydymffurfio â'r telerau hyn.

Yn ogystal, â'r cyfyngiadau a amlinellir uchod, rhaid i'r Post beidio â chynnwys:

- 7.1. hyperddolenni, ar wahân i'r rhai sydd wedi'u hawdurdodi'n benodol gan HAHAV;
- 7.2. allweddeiriau neu eiriau a ailadroddir sy'n amherthnasol i Gynnwys y Post;
- 7.3. enw, logo neu nod masnachu unrhyw sefydliad ar wahân i'ch un Chi neu eich cleient;
- 7.4. gwybodaeth anghywir, ffug neu gamarweiniol.

## 8. Cael gwared â Chynnwys tramgwyddus

- 8.1. I osgoi amheuaeth, mae'r paragraff wedi'i anelu at unrhyw berson sy'n mynd ar Ein Gwefan at unrhyw ddiben.
- 8.2. Nid yw HAHAV dan unrhyw rwymedigaeth i fonitro na chofnodi gweithgarwch unrhyw un sy'n defnyddio Ein Gwefan at unrhyw ddiben, nac ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb i fonitro neu gadw trefn ar weithgareddau sy'n ymwneud â'r rhyngwyd. Fodd bynnag, gall HAHAV wneud hynny heb roi rhybudd i Chi a heb roi rheswm i Chi.
- 8.3. Os yw unrhyw Gynnwys wedi'ch tramgwyddo Chi, mae'r drefn ganlynol yn briodol:
  - 8.3.1 rhaid cyflwyno eich honiad neu gŵyn i HAHAV ar y ffurflen sydd ar gael ar Ein Gwefan, neu mae'n rhaid cynnwys yr un wybodaeth y gofynnir amdani ar ein ffurflen. Rhaid ei anfon at HAHAV trwy'r post neu e-bost.
  - 8.3.2 Bydd HAHAV yn symud y Cynnwys tramgwyddus cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl;
  - 8.3.3 Ar ôl i HAHAV dderbyn hysbysiad o'r honiad neu gŵyn, bydd yn ymchwilio i'r mater, fel y gwêl orau;
  - 8.3.4 Gall HAHAV roi'r Cynnwys y buoch Chi'n cwyno amdano yn ôl neu benderfynu peidio.
- 8.4. O ran unrhyw gŵyn a wneir gennych Chi neu unrhyw berson ar eich rhan, p'un ai y defnyddir ein ffurflen gŵyn ai peidio, rydych Chi'n awr yn rhoi i ni hawl di-droi'n-ôl i gyhoeddi'r gŵyn a phob gohebiaeth a chyfathrebiad dilynol, heb gyfyngu.
- 8.5. Rydych yn awr yn cytuno pe bai unrhyw gŵyn a wneir gennych Chi yn wacsaw neu'n flinderus, byddwch Chi'n ad-dalu 'r gost o'n hymchwiliad i HAHAV gan gynnwys unrhyw ffioedd cyfreithiol, os oes rhai.

## 9. Diogelwch Ein Gwefan

- 9.1. Os ydych Chi'n camddefnyddio Ein Gwefan, bydd HAHAV yn cymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn Chi.
- 9.2. Rydych yn awr yn cytuno na fyddwch Chi'n, ac na fyddwch Chi'n caniatáu i unrhyw berson arall:

- 9.2.1 newid, copïo, neu achosi difrod neu effaith anfwriadol i unrhyw ran sydd ar Ein Gwefan, nac unrhyw feddalwedd a ddefnyddir o'i mewn;
  - 9.2.2 mewngofnodi i'n Gwefan mewn unrhyw ffordd a fyddai'n peri i ymddangosiad neu ddiwyg Ein Gwefan fod yn wahanol i'r hyn a fyddai'n cael ei weld gan ddefnyddiwr a gafodd fynediad i'n Gwefan trwy deipio'r URL i borwr safonol;
  - 9.2.3 llawrlwytho unrhyw ran oddi ar Ein Gwefan heb ein caniatâd ysgrifenedig penodol;
  - 9.2.4 casglu neu ddefnyddio unrhyw wybodaeth a gafwyd oddi ar neu ynghylch Ein Gwefan neu'r Cynnwys ac eithrio fel y bwriadwyd gan y cytundeb hwn;
  - 9.2.5 crynhoi, copïo neu ddyblygu mewn unrhyw fodd unrhyw Gynnwys neu wybodaeth sydd ar gael oddi ar Ein Gwefan, ar wahân i'r hyn a ganiateir gan y cytundeb hwn neu sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer eich defnydd o'r Gwasanaethau;
  - 9.2.6 rhannu â thrydydd parti unrhyw fanylion mewngofnodi i'n Gwefan;
- 9.3. Er gwaethaf y telerau uchod, mae HAHAV yn rhoi trwydded i Chi i :
- 9.3.1 greu hyperddolen i'n Gwefan at ddiben hyrwyddo buddiannau sy'n gyffredin i Chi a HAHAV. Gallwch wneud hyn heb ganiatâd penodol. Mae'r drwydded hon yn amodol ar i chi beidio â phortreadu HAHAV neu unrhyw gynnyrch neu wasanaeth mewn modd ffals, camarweiniol, dirmygus neu fel arall yn sarhaus. Ni allwch ddefnyddio unrhyw logo neu raffeg berchnogol na nod masnachu o'n heiddo fel rhan o'r ddolen heb ein caniatâd ysgrifenedig penodol ni.
  - 9.3.2 gallwch Chi gopïo testun unrhyw dudalen at eich defnydd personol mewn cysylltiad â phwrpas Ein Gwefan neu Wasanaeth a ddarperir gan HAHAV.

## 10. Storio Data

- 10.1. Gall HAHAV osod cyfyngiad ar nifer y negeseuon y gallwch Chi eu hanfon, storio neu dderbyn trwy'r Gwasanaethau. Gall HAHAV ddileu negeseuon sydd uwchlaw'r nifer hwnnw. Bydd HAHAV yn eich hysbysu Chi o unrhyw newid i'ch cyfyngiad, ac eithrio mewn argyfwng.

- 10.2. Nid yw HAHAV yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb am ddilead neu fethiant i storio neu anfon e-byst neu negeseuon eraill;
- 10.3. Rydych yn derbyn na all HAHAV fod yn atebol i Chi am unrhyw ddilead o'r fath neu fethiant i drosglwyddo i Chi;
- 10.4. Mae HAHAV yn cadw at weithdrefnau rhesymol i roi copïau o ddata cyffredinol wrth gefn at ein dibenion ein hunain, ond nid yw HAHAV yn gwarantu y bydd eich data Chi'n cael ei gadw na'i roi wrth gefn mewn unrhyw amgylchiadau penodol oni bai fod HAHAV wedi gwneud trefniadau contractiol penodol gyda Chi mewn ysgrifen.

## **11. Ymyrryd ar Wasanaethau**

- 11.1. Os oes rhaid i HAHAV ymyrryd ar y Gwasanaethau, bydd HAHAV yn rhoi rhybudd rhesymol i Chi lle bo'n bosibl a phan gredwn fod yr amser i lawr yn golygu cyfiawnhau rhoi gwybod i Chi.
- 11.2. Rydych yn cydnabod y gallai'r Gwasanaethau brofi ymyrraeth hefyd am sawl rheswm y tu hwnt i'n rheolaeth;
- 11.3. Rydych yn cytuno nad yw HAHAV yn atebol i Chi am unrhyw golled, rhagweladwy ai peidio, sy'n deillio o unrhyw ymyrraeth i'r Gwasanaethau.

## **12. Terfyniad**

- 12.1. Gall HAHAV derfynu'r cytundeb hwn ar unrhyw adeg, am unrhyw reswm, ar unwaith trwy anfon hysbysiad i Chi i'r perwyl hwnnw trwy'r post neu e-bost.
- 12.2. Bydd terfyniad gan y naill barti neu'r llall yn cael yr effaith ganlynol:
  - 12.2.1 Bydd eich hawl i ddefnyddio'r Gwasanaethau'n dod i ben yn syth;
  - 12.2.2 Nid yw HAHAV dan unrhyw rwymedigaeth i anfon unrhyw negeseuon sydd heb eu darllen neu heb eu hanfon atoch Chi nac unrhyw drydydd parti.

## **13. Eiddo Deallusol**

Rydych yn cytuno na fyddwch Chi ar unrhyw adeg



- 13.1. yn gwneud unrhyw beth sydd yn lleihau neu a allai leihau gwerth ein Heiddo Deallusol neu herio ein perchnogaeth ohono.
- 13.2. yn hysbysu HAHAV o unrhyw amheuaeth bod rheolau'r Eiddo Deallusol wedi cael eu torri;
- 13.3. cyn belled â bod meddalwedd manylebau wedi'i ddarparu neu wedi'i wneud yn hygyrch gan HAHAV i Chi, fyddwch Chi ddim:
  - 13.3.1 yn copïo na gwneud unrhyw newid i unrhyw ran o'r cod sydd ynddo;
  - 13.3.2 yn ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd nas rhagwelir gan y cytundeb hwn;
  - 13.3.3 yn rhoi mynediad i unrhyw berson arall heblaw Chi iddo, y deiliad trwydded yn y cytundeb hwn;
  - 13.3.4 mewn unrhyw fodd yn rhoi gwybodaeth amdano i unrhyw berson arall neu'n gyffredinol.
- 13.4. yn defnyddio'r Eiddo Deallusol ac eithrio'n uniongyrchol fel y'i bwriedir gan y cytundeb hwn neu er ein budd ni.

## **14. Ymwadiad a chyfyngiad ar atebolrwydd**

- 14.1. Mae'r gyfraith yn gwahaniaethu o un wlad i'r llall. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol i'r graddau y mae'r gyfraith berthnasol yn caniatáu hynny.
- 14.2. Mae'r holl amodau goblygedig, gwarantau a thelerau wedi'u heithrio o'r cytundeb hwn
- 14.3. Ar gael ar Ein Gwefan y mae Cynnwys a Bostiwyd gan drydydd parti. Nid yw HAHAV yn gyfrifol am unrhyw Bostiad o'r fath. Os digwydd i Chi ddod ar draws unrhyw gynnwys sy'n tramgwyddo yn erbyn y ddogfen hon, cysylltwch â HAHAV gan ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt yn nhroedyn pob tudalen ar ein gwefan.
- 14.4. Rhoddir gwybod i Chi y gall fod camgymeriadau technegol neu wallau teipograffyddol yn y Cynnwys. Mae hyn yn anochel mewn unrhyw wefan fawr. Byddai HAHAV yn ddiolchgar os gallech ddwyn hyn i'n sylw ar unwaith wrth i Chi eu canfod.
- 14.5. Mae Ein Gwefan yn cynnwys dolenni i wefannau eraill ar y rhyngrwyd. Nid oes gan HAHAV mo'r pŵer na'r rheolaeth dros unrhyw wefan o'r fath. Rydych Chi'n cydnabod ac yn cytuno na fydd HAHAV yn atebol

mewn unrhyw ffordd am gynnwys unrhyw wefan gysylltiol o'r fath, nac am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o'ch defnydd o wefan o'r fath, nac am eich pryniant o wasanaethau neu nwyddau trwy wefan o'r fath.

14.6. Mae Gwefan HAHAV a Gwasanaethau HAHAV yn cael eu darparu "fel y mae". Nid yw HAHAV yn gwneud unrhyw ddatganiad nac yn gwarantu y bydd y Gwasanaethau:

14.6.1 yn ddefnyddiol i Chi;

14.6.2 o ansawdd boddhaol;

14.6.3 yn addas i bwrpas penodol;

14.6.4 ar gael neu'n hygyrch, heb ymyrraeth na heb gamgymeriad..

14.7. Nid yw HAHAV yn honni unrhyw wybodaeth arbenigol mewn unrhyw bwnc. Mae HAHAV yn ymwrthod ag unrhyw rwymedigaeth neu atebolrwydd atoch Chi sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o wybodaeth rydych Chi'n ei chymryd oddi ar Ein Gwefan.

14.8. \*Nid yw HAHAV yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am:

14.8.1 breifatrwydd unrhyw drosglwyddiad;\*

14.8.2 hysbysebion trydydd parti sydd wedi'u postio ar Ein Gwefan neu drwy'r Gwasanaethau;\*

14.8.3 ymddygiad, p'un ai ar-lein neu all-lein, unrhyw ddefnyddiwr Ein Gwefan neu'r Gwasanaethau;\*

14.8.4 fethiant neu gamweithio caledwedd neu feddalwedd cyfrifiadurol, cyfarpar neu system technegol sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'ch defnydd Chi o'r Gwasanaethau.\*

14.8.5 golled neu ddifrod am eich bod wedi mynychu digwyddiad a drefnwyd trwy Ein Gwefan neu'r Gwasanaethau;\*

*\*" ddim yn siŵr faint o hyn fydden ni'n rhydd ohono" – cyfieithiad o sylw JW ar ymyl y dudalen Saesneg*

14.9. Rydych yn cytuno mewn unrhyw amgylchiadau pan allai HAHAV o bosibl ddod yn atebol i Chi, mai crynswth ein hatebolrwydd yw'r swm rydych Chi wedi talu HAHAV yn y 12 mis yn union cyn hynny am y Gwasanaethau dan sylw.

14.10. Ac eithrio yn achos marwolaeth neu anaf personol, bydd cyfanswm ein hatebolrwydd dan y cytundeb hwn, sut bynnag y cwyd, ddim yn fwy na'r swm o £1000

14.11. Ni fydd HAHAV yn atebol i Chi am unrhyw golled na chost sydd yn:

14.11.1 golled anuniongyrchol neu ganlyniadol, neu'n

14.11.2 golled economaidd neu golled arall o drosiant, elw, busnes neu ewyllys da, hyd yn oed os oedd colled o'r fath yn rhesymol ragweladwy neu fod HAHAV yn gwybod y gallech Chi ei hysgwyddo.

14.12. Mae'r paragraff hwn (ac unrhyw baragraff arall sy'n hepgor neu'n cyfyngu ar ein hatebolrwydd) yn berthnasol i'n cyfarwyddwyr, swyddogion, gweithwyr, isgontractwyr, asiantiaid a chwmnïau cyswllt (a allai orfodi'r gosodiad hwn dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 yn ogystal ag i HAHAV.

## **15. Rydych chi'n digolledu HAHAV**

Rydych yn cytuno i ddigolledu HAHAV yn erbyn yr holl gostau, hawliadau a gwariant sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r canlynol:

15.1. eich methiant i gydymffurfio â chyfraith unrhyw wlad;

15.2. eich bod wedi torri'r cytundeb hwn;

15.3. unrhyw weithred, esgeulustod neu achos o ddiffyg talu gan unrhyw asiant, gweithiwr, deiliad trwydded neu gwsmer o'ch eiddo;

15.4. hawliad contractiol sy'n deillio o'ch defnydd o'r Gwasanaethau;

15.5. torri hawliau eiddo deallusol unrhyw berson;

15.6. at ddibenion y paragraff hwn rydych Chi'n cytuno bod cost ein hamser rheoli a thechnegol yn cael ei hadennill yn briodol ac y gellid ei werthuso'n rhesymol ar £100.00 yr awr heb brawf pellach.

## **16. Materion Amrywiol**

16.1. Rydych yn cytuno i roi i HAHAV eich cyfeiriad tir cyfredol, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn mor aml ag y cânt eu newid ynghyd â'r holl wybodaeth y gallai fod HAHAV ei hangen i'w alluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau dan y contract hwn.

16.2. Os yw unrhyw delerau neu osodiad yn y cytundeb hwn ar unrhyw adeg yn cael eu hystyried gan unrhyw awdurdodaeth yn ddi-rym, annilys neu'n anorfodadwy, yna bydd y cytundeb yn cael ei drin fel un sydd

wedi newid neu'n llai, dim ond i'r graddau lleiaf posibl sy'n angenrheidiol i'w ddwyn o fewn cyfreithiau'r awdurdodaeth honno ac i'w atal rhag bod yn annilys, a bydd yn gyfreithiol-rwym yn y ffurf honno sydd wedi newid neu sy'n llai. Yn unol â hynny, dehonglir pob gosodiad fel pe ar wahân ac ni fydd mewn unrhyw ffordd yn effeithio ar unrhyw un arall o'r telerau hyn.

16.3. Bydd hawliau a rhwymedigaethau'r partïon a amlinellir yn y cytundeb hwn yn cael eu trosglwyddo i unrhyw olynydd yn y teitl a ganiateir.

16.4. Os ydych Chi wedi torri unrhyw delerau yn y cytundeb hwn, gall HAAV:

16.4.1 derfynu eich cyfrif a gwrthod mynediad i'n Gwefan;

16.4.2 cael gwared â'r neu olygu'r Cynnwys, neu ddiddymu unrhyw archeb fel y gwelwn orau;

16.4.3 cyflwyno hawliad mewn unrhyw lys.

16.5. Bydd unrhyw rwymedigaeth yn y cytundeb hwn a fwriedir i barhau i gael effaith ar ôl y terfynu neu'r cwblhau yn parhau felly;

16.6. Ni fydd methiant neu oedi gan unrhyw barti i ymarfer unrhyw hawl, grym neu rwymedi yn gweithredu fel hawllidiad ohono nac yn dangos unrhyw fwriad i leihau hynny neu unrhyw hawl arall yn y dyfodol;

16.7. Bydd unrhyw negeseuon sydd i'w rhoi i'r naill barti gan y llall, yn cael eu dosbarthu â llaw neu eu hanfon trwy bost dosbarth cyntaf neu ddosbarthiad a gofnodwyd neu trwy e-bost.

Ystyrir eu bod wedi cael eu dosbarthu:

os byddant wedi'u dosbarthu â llaw ar ddiwrnod y dosbarthiad;

os byddant wedi'u hanfon trwy'r post i'r cyfeiriad cywir: o fewn 72 awr o'u postio;

os byddant wedi'u hanfon trwy e-bost i'r cyfeiriad o'r lle y mae'r derbynnydd wedi anfon e-bost ddiwethaf o fewn 24 awr os nad oes hysbysiad nad yw wedi ei dderbyn wedi'i gael gan yr anfonwr.

16.8. Pe digwydd anghydfod rhwng y partïon ynglŷn â'r cytundeb hwn, yna byddant yn mynd ati i geisio datrys yr anghydfod trwy ymgysylltu'n ddidwyll â'r llall mewn proses o gyfryngu cyn dechrau cyflafareddu neu gyfreitha.

16.9. Nid yw'r cytundeb hwn yn rhoi unrhyw hawl i unrhyw drydydd parti dan y Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) neu fel arall, heblaw y

gellir gorfodi dan y Ddeddf honno unrhyw osodiad yn y cytundeb hwn sy'n eithrio neu'n cyfyngu ar atebolrwydd ein cyfarwyddwyr, swyddogion, gweithwyr, is-gontractwyr, asiantiaid a chwmnïau cysylltiol.

- 16.10. Pe bai unrhyw anghysondeb rhwng unrhyw un o delerau'r cytundeb hwn a gosodiadau erthyglau cwmni cyfyngedig neu unrhyw ddogfen gyffelyb a fwriedir i reoleiddio unrhyw gorff corfforaethol neu gyfunol arall, yna bydd telerau'r cytundeb hwn yn trechu.
- 16.11. Bydd dilysrwydd, strwythur a pherfformiad y cytundeb hwn yn cael ei lywodraethu gan ddeddfau Lloegr a Chymru ac rydych Chi'n cytuno y bydd unrhyw anghydfod sy'n deillio ohono yn cael ei ddwyn i gyfraith o fewn yr awdurdodaeth honno'n unig.